
V GLYNN VIVIAN




# Bynting enfys

Bydd angen arnoch:

- Crayons, pennau ffelt neu baent mewn lliwiau'r enfys
- Darn mawr o bapur
- Siswrn
- Darn hir o ruban neu gortyn
- Pegiau dillad



Defnyddiwch crayons, paent neu bennau ffelt mewn lliwiau'r enfys i orchuddio dar mawr o bapur efo enfysau. Mae papur wal plaen yn gweithio'n dda ar gyfer hyn, neu ddefnyddio hen ddarnau sydd gennych yn y ty. Gallwch hyd yn oed defnyddio papur efo patrwm teimladwy arno, neu ddarnau llai o faint o bapur sgrap!



Wedi i chi orffen lliwio, marciwch allan siapau triongloar eich papur. Gallwch naill ai ceisio cael y nifer mwyaf drionglau posib o'r papur, neu edrych a dewis yr ardaloedd o liwio sydd a'r patrymau neu liwiau orau.

**GAIR O GYNGOR: Gallech dorri allan stensil i helpu eich Baban Gelf i ddewis eu hoff rannau o'r lliwio ar gyfer eu darnau bychan o bynting!**

Torrwch allan eich trionglau.

**GAIR O GYNGOR: Nid oes rhaid defnyddio siapau triongl, gallech ddefnyddio unrhyw siapau ar gyfer eich bynting. Beth am bynting siâp calon?**

Defnyddiwch begiau dillad i gysylltu eich darnau bynting i ruban neu gortyn.

**GAIR O GYNGOR: Gallwch chi liwio eich cortyn gyda phaent i adlewyrchu lliwiau'r bynting!**

Nawr hongiwch eich bynting brydferth yn eich ffenest i bawb ei weld ac i godi calon pobl sy'n cerdded heibio!

Gan Kate Evans

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

FRIENDS OF THE GLYNN VIVIAN

Cyngor Abertawe
Swansea Council